## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Mercher, 22 Chwefror 2006 am 9.30 y bore.

## PRESENNOL

Cynghorwyr. S. Thomas (Cadeirydd) J.R. Bartley, R.E. Barton, J. Butterfield, J. Chamberlain Jones, M.Ll. Davies, S.A. Davies, P.C Duffy (sylwedydd), E.C. Edwards (sylwedydd), G.C. Evans, H.H. Evans, S. Frobisher, I.M. German, K.N. Hawkins, T.K. Hawkins, T.K. Hodgson, T.R. Hughes (cyrhaeddodd am 12.00 y.p), N.H. Jones, E.R. Jones, H. Jones, M.M. Jones, G.M. Kensler, P.W. Owen, N.P. Roberts, D.A.J. Thomas, C.H. Williams, E.W. Williams (sylwedydd/aelod lleol), R.Ll. Williams, R.W. Hughes (sylwedydd).

## YN BRESENNOL HEFYD

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G.Butler) Swyddog Gwasanaethau Cwsmer (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd), G. Aveyard (Prif Swyddog Iechyd Amgylcheddol) yn bresennol ar gyfer eitemau ar Fforest Corwen ac Ifor Williams Trailers a Roger Bennion (Swyddog Mwynau Ymgynghorol) i Chwarel Moel y Faen.

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU ODDI WRTH

Cynghorwyr. J.M. Davies, M.A. German, D. Hannam, D. Jones, J. Thompson Hill, M.A. Webster.

**CROESO** i Morfudd Jones

### 1. MATERION BRYS

Dim

### 2. CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus (dosbarthwyd o flaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd a'r penderfyniadau y gofynnir i'r Pwyllgor eu gwneud.

***PENDERFYNWYD***: -

*(a) y dylid caniatáu argymhellion y Swyddogion fel y cynhwysir hwy yn yr adroddiad a gyflwynir gerbron, ac y dylid caniatáu neu wrthod cynllunio fel ag sy'n briodol ymhob achos dan Orchymyn Cynllunio Tref a Sir (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Gynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysiad*

*Cynllunio Tref a Sir, 1994, a/neu Deddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir nawr:-*

**(i) CANIATÁU**

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 43/2005/1100/PF | Yn dilyn ystyried llythyr pellach gyda sylwadau oddi wrth yr Ymgeisydd.<br>Codi estyniad llawr cyntaf ac addasu'r adeilad sy'n bodoli eisoes.<br>**Saints Health And Fitness Club, 8 Ffordd Talargoch Prestatyn**<br>CANIATÁU yn amodol ar: Amod Ychwanegol 4 a Nodyn i'r Ymgeisydd<br>4. Ni roddir caniatâd i unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes y bydd caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'i dderbyn i fanylion lleoliad unrhyw gwrt adeiladu a pharcio cerbydau adeiladu cysylltiol, a storfa. Dylai'r cwrt adeiladu a gweithgarwch cysylltiol wedyn weithredu yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.<br>Rheswm: Er budd dymunoldeb preswyl ac i leihau unrhyw effaith ar y maes parcio cyhoeddus.<br>Swyddogion i gysylltu â swyddogion y Cyngor sy'n gyfrifol am y maes parcio i sicrhau eu bod yn ymwybodol o bryderon Aelodau ynglŷn â thresmasu ar y maes parcio cyhoeddus. |
| 43/2005/1524/PF | Manylion diwygiedig o anheddau ar Blotiau 3 a 4 i ganiatáu codi byngalos *dormer* yn lle byngalos.<br>**Tir yn 72 Ffordd Gronant, Prestatyn**<br>CANIATÁU yn amodol ar Amod Newydd 2<br>Ni roddir caniatâd i unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes y bydd caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'i dderbyn i'r deunyddiau i'w defnyddio fel arwynebau allanol y waliau a thoeon y datblygiad a ganiateir, ac ni ddylid defnyddio unrhyw ddeunyddiau sy'n wahanol i'r rhai a gymeradwywyd. |
| 43/2005/1534/PF | Llunio cae pêl-droed bob-tywydd gyda 4 colofn goleuo 10m o uchder, ffens *palisade* 1.8 metr o uchder ac adeiladu mynediad newydd i gerddwyr.<br>**Clwb Ieuenctid Prestatyn, Dawson Drive, Prestatyn** |

| | |
|---|---|
| | CANIATÁU yn amodol ar Amodau Diwygiedig<br>2. Dylid ond defnyddio'r cyfleuster a'r goleuadau cysylltiol rhwng 0900-2130 ar unrhyw ddydd.<br>3. (b) Mae'n rhaid i oleuder a manylion y goleuadau ar bob adeg gydymffurfio â therfynau Rhanbarth Amgylcheddol E3 ayyb. Dylai swyddogion gynghori'r ymgeisydd i sicrhau bod y goleuadau'n cael eu rheoli'n ofalus mewn perthynas â'r amodau cynllunio a thrwy reolaeth y Cyngor ei hun fel y gweinyddwr i sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar anheddau cyfagos. |
| 46/2005/0918/PO | **Siaradwr o Blaid – Carl Roberts**<br>Cyhoeddodd y Cynghorydd M. Ll. Davies bod ganddo ddiddordeb yn y cais canlynol, a gadawodd y Siambr tra roedd y mater dan sylw.<br>Yn dilyn ystyried llythyrau pellach o sylwadau oddi wrth Cyngor Tref Llanelwy; Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog; a'r Ymgeiswyr.<br>Datblygu 3.9 hectar o dir ar gyfer defnydd swyddfa/diwydiannol ysgafn (Dosbarth B1) ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau/cerddwyr (cais amlinellol)<br>**Cyn Gaeau Chwarae Pilkington, Ffordd Glascoed, Llanelwy**<br>CANIATÁU<br>Penderfynwyd rhoi CANIATÂD cynllunio, ond yn amodol ar yr ymgeiswyr yn cytuno ar Gytundeb Adran 106 yn ymwneud â darparu swm cyfnewidiol ar gyfer darparu cyfleuster hamdden o fudd i'r gymuned.<br>Nododd yr aelodau canlynol eu bod yn dymuno i'r ffaith eu bod wedi pleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd gael ei gofnodi: B. Barton, J Chamberlain Jones, D.A.J. Thomas, J. Butterfield. |
| 47/2005/1554/PC | Yn dilyn ystyried map diwygiedig a ddosbarthwyd a llythyrau pellach o sylwadau oddi wrth: Rheolwr Iechyd a Thai Sector Preifat; Asiant; K. Morris, Maes Gwyn, Ffordd Treffynnon, G.D. Kendrick, Brynllithris Barn, Ffordd Cwm, Rhuallt.<br>Cadw adeilad storio diwydiannol sy'n ffurfio estyniad i weithdy sydd yno eisoes (cais ôl-weithredol)<br>**Llwyn Derw, Ffordd Treffynnon, Rhuallt, Llanelwy**<br>CANIATÁU yn amodol ar: Amodau Diwygiedig |

1. O fewn dau fis i ddyddiad y caniatâd hwn, dylid peintio waliau allanol a tho'r adeilad y rhoddwyd caniatâd iddo yn wyrdd tywyll i gyd-fynd â'r adeiladau sydd eisoes ar y safle. Yn dilyn hynny, dylid sicrhau bod y waliau allanol a'r to yn aros yn lliw gwyrdd tywyll, a dylid cynnal unrhyw ail-liwio sy'n angenrheidiol i gadw lliw gwyrdd tywyll priodol fel y mynnir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
Swyddogion i sicrhau bod y safle'n cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau cydymffurfiad gydag Amodau Rhif 2 a 3. Dylai'r cynllun tirlunio sy'n ofynnol gan Amod Rhif 2 gynnwys coed a phlanhigion mawr o ran maint, ac amrywiaeth o rai bythwyrdd a chollddail gyda'r posibilrwydd o rai conwydd i roi sgrinio tymor byr.

02/2005/1449/PF

Codi tŷ â phedair ystafell wely.
**Tir wrth gefn Tawelfan, Bryn Goodman, Rhuthun**
CANIATÁU

03/2005/1494/PS

Cyhoeddodd y Cynghorydd C. H. Williams bod ganddo ddiddordeb yn y cais canlynol, a gadawodd y Siambr tra roedd y mater dan sylw.
Yn dilyn ystyried 1 llythyr pellach o sylwadau oddi wrth: Rheolwr Iechyd a Thai Sector Preifat:
Amrywiad i Amod Rhif 2 ar ganiatâd cynllunio Cyf. Rhif. 03/11664 i ganiatáu'r oriau agor i ddarllen 1730-0100 o'r gloch Dydd Llun-Dydd Sul cynhwysol.
**Bwyty Indiaidd SHYLET 36, Stryd Regent, Llangollen**
CANIATÁU yn amodol ar Amod Diwygiedig
1. Caniateir i'r bwyty fod ar agor yn unig ar gyfer gwasanaethu cwsmeriaid rhwng 10.00 o'r gloch a 0100 o'r gloch y diwrnod canlynol.

07/2005/0777/PC

**Siaradwr yn Erbyn – Mr B Attwood**
Yn dilyn ystyried llythyrau pellach o sylwadau oddi wrth: Cyngor Cymuned Llandrillo; Asiant yr Ymgeiswyr; Mr B.A. Attwood, Parc Carafán Cilan, Llandrillo.
Cadw pont bwyso, estyniad sy'n gogwyddo i'r prif adeilad prosesu coed a strwythurau i gynnal y gwaith pilio a'r gwaith torri ynddynt (caniatâd ôl-weithredol)
**Corwen Forestry Timber Products, Llandrillo, Corwen**
CANIATÁU yn amodol ar yr Amod Diwygiedig

2. Dylid cyflwyno cynllun ar gyfer gwanhau sŵn yn gysylltiedig â'r datblygiad y rhoddwyd caniatâd iddo yma, gan gynnwys darparu paneli wal a ffens ffin, er ystyriaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol erbyn 30 Mawrth 2006, fan bellaf. Dylid gweithredu unrhyw gynllun a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd erbyn 31 Gorffennaf 2006, fan bellaf. Rhaid cynnal y trefniadau a gymeradwyir fel y manylir ar bob adeg yn dilyn hynny.

3. Dylid cyflwyno cynllun i gadw llwch a llwch llif yng nghyffiniau'r bont bwyso i lawr er ystyriaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol erbyn 30 Mawrth, 2006 fan bellaf. Dylid gweithredu unrhyw gynllun a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd erbyn 31 Gorffennaf 2006, fan bellaf. Rhaid cynnal y trefniadau a gymeradwyir fel y manylir ar bob adeg yn dilyn hynny.

4. Dylid cyflwyno manylion o'r trefniadau er gwaredu dŵr wyneb yng nghyffiniau'r bont bwyso er ystyriaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol erbyn 30 Mawrth, 2006 fan bellaf. Dylid gweithredu unrhyw gynllun a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd erbyn 31 Gorffennaf 2006, fan bellaf. Rhaid cynnal y trefniadau a gymeradwyir fel y manylir ar bob adeg yn dilyn hynny.

5. Ni ddylai'r lefelau sŵn sy'n codi o weithredu unrhyw rai o'r peiriannau sy'n ffurfio rhan o'r datblygiad y rhoddir caniatâd iddo yma fod yn fwy na 45 DB LAeq (1 awr freefield) am unrhyw awr pan gant eu mesur o dalcen unrhyw eiddo preswyl.

6. Dylid cyflwyno cynllun er rheoli arferion gweithredu o fewn y safle, gan gynnwys parcio a symudiadau cerbydau a storio pren er ystyriaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol erbyn 30 Mawrth, 2006 fan bellaf. Dylid gweithredu unrhyw gynllun a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd erbyn 31 Gorffennaf 2006, fan bellaf. Rhaid cynnal y trefniadau a gymeradwyir fel y manylir ar bob adeg yn dilyn hynny.

Rhesymau

2. – 6.

Er budd dymunoldeb trigolion eiddo preswyl yn y cyffiniau. Gofynnwyd i swyddogion fonitro'r safle'n ofalus i sicrhau cydymffurfiad gydag amodau.

| | |
|---|---|
| 08/2005/0956/PF | Codi estyniad i adeilad galfaneiddio sy'n bodoli eisoes.<br>**Ifor Williams Trailers Ltd.  Cynwyd, Corwen**<br>CANIATÁU. |
| 13/2005/1369/PF | Yn dilyn ystyried adroddiad safle a llythyrau pellach o sylwadau oddi wrth: Mr a Mrs Plows, Old Bailiff House, Plas Efenechtyd<br>Trosi cyn adeilad amaethyddol yn annedd, gosod tanc septig newydd a gwneud addasiadau i'r fynedfa gyfredol i gerbydau<br>**Adeilad C Plas Efenechtyd, Efenechtyd, Rhuthun**<br>CANIATÁU yn amodol ar Amod Diwygiedig 4.  Ni ddylid byw yn yr annedd hyd nes bod y ffyrdd a'r lleoedd parcio o fewn y cwrtil, ayyb, yn barod.<br>**Nodyn ychwanegol i'r Ymgeisydd**<br>- Fe'ch cynghorir i sicrhau bod camau diogelwch priodol yn cael eu gweithredu wrth symud unrhyw asbestos o'r safle (y to sydd yno eisoes).<br>- Fe'ch cynghorir bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi'r caniatâd hwn yn unig ar y sail bod y cynnig yn cynnwys trosi'r adeilad yn annedd, i'w gynnal yn union fel y cynlluniau a gymeradwywyd. Bydd unrhyw waith addasu neu ddymchwel sy'n gwyro o'r hyn a ddangosir ar y cynlluniau a gymeradwywyd, oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi caniatâd, gan gynnwys ailadeiladu rhan neu'r holl adeilad yn golygu bod y caniatâd cynllunio yn annilys.<br>- Dylai swyddogion fonitro'r safle'n ofalus i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gadw i raddau helaeth, ac nad yw'r datblygiad newydd yn golygu codi annedd newydd.  Os bydd unrhyw wal yn cwympo neu'n cael ei dymchwel, bydd yn rhaid cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio pellach a fyddai'n cael ei ystyried fel annedd newydd yng nghefn gwlad. |
| 15/2005/0673/PF | **Siaradwr o Blaid - Mr R Jones**<br>Codi adeilad i gadw cathod gyda lle i swyddfa/derbynfa a chreu cyfleusterau parcio ceir.<br>**Bryn Difyr, Bryn Alyn, Llanferres, Yr Wyddgrug**<br>CANIATÁU |
| 16/2005/1432/PF | Yn dilyn ystyried un llythyr o sylwadau pellach oddi wrth yr Ymgeisydd. |

.

Codi annedd a chreu mynedfa newydd i gerbydau.
**Tir ger 41 (Plot 21a) Tan Y Bryn,**
**Llanbedr, Dyffryn Clwyd, Rhuthun**
CANIATÁU yn amodol ar:
Ni ddylai unrhyw ddatblygiad ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl o dirlunio caled a meddal ar y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig, a dylai cynllun o'r fath gynnwys manylion parthed:
(a) holl goed, llwyni a llystyfiant arall ar y tir, manylion am unrhyw rai i'w cadw, a mesurau ar gyfer eu gwarchod yng nghwrs y datblygiad;
(b) coed, llwyni, prysgoed neu lystyfiant a gynigir, gan gynnwys cadarnhad o rywogaethau, niferoedd a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu newydd;
(c) deunyddiau y bwriedir eu defnyddio ar y tramwyfeydd, llwybrau a mannau eraill ac arwynebau caled eraill;
(d) y gwaith symud pridd y bwriedir ei gynnal, graddio a phentyrru tir a newidiadau mewn lefelau, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrru hynny ar lystyfiant sy'n bodoli eisoes a thirffurf sydd o amgylch;
(e) safleoedd, dyluniad, deunyddiau a'r math o ffin a argymhellir;
Dylid cynnal unrhyw waith plannu, hadu, gosod glaswellt, ffensio, codi wal neu unrhyw waith arall a nodir yn y manylion yn ystod y tymhorau plannu a hadu cyntaf wedi cwblhau'r datblygiad, a dylid sicrhau bod coed neu blanhigion newydd yn cael eu gosod yn ystod y tymor plannu nesaf os oes unrhyw goed neu blanhigion wedi'u tynnu neu wedi'u niweidio neu'n cael afiechyd o fewn pum mlynedd i'r datblygiad a dylid sicrhau bod y rhai newydd o'r un maint a'r un rhywogaeth.
NODYN I'R YMGEISYDD: - Fe'ch cynghorir i sicrhau nad yw Leylandii yn rhan o'r plannu yn y llwyni

17/2005/1184/MA

Yn dilyn ystyried adroddiad o ymweliad safle a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2006.
Echdynnu gwastraff llechi a cherrig siâl a gwaith adfer cysylltiol.
**Chwareli Moel-Y-Faen, Horseshoe Pass, Llangollen**
CANIATÁU

Penderfynwyd rhoi CANIATÂD cynllunio yn amodol ar yr ymgeisydd yn gyntaf yn ymrwymo i Oblygiad Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Tref a Sir 1990. Penawdau'r amodau i fod fel paragraff 13 o'r adroddiad.
Amod Ychwanegol
23. Ni chaniateir llifoleuadau allanol neu oleuadau diogelwch o fewn y safle heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w manylion.
Rheswm: Er budd dymunoldeb gweledol.
Gwnaeth Aelodau gais i lythyr gael ei anfon at y Cwmni sy'n Ymgeisio, ar fater y penderfyniad gan dynnu sylw at bryderon Aelodau am effaith y datblygiad ar gyflwr ffyrdd cyfagos gan gynnwys mwd ar y briffordd. Mae'n rhaid sicrhau bod cydymffurfiad llwyr gydag Amod Rhif 12.

| | |
|---|---|
| 18/2005/1217/PO | Datblygu 0.16 hectar o dir i 2 annedd, gosod adeilad trin preifat ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinellol)<br>**Tir ger Bryn Dedwydd, Llandyrnog, Dinbych**<br>CANIATÁU |
| 18/2005/1361/PS | Dileu Amod Rhif 2 ar ganiatâd cynllunio Cyf. Rhif. Rhuthun Gwledig 11/1409 yn cyfyngu hawl preswylio i bersonau sy'n gweithio, neu wedi gweithio'n olaf, mewn amaethyddiaeth.<br>**Segwen, Llandyrnog, Dinbych**<br>CANIATÁU |
| 18/2005/1523/PS | Cyhoeddodd y Cynghorydd Gwilym Evans bod ganddo ddiddordeb yn y cais canlynol, a gadawodd y Siambr tra roedd y mater dan sylw.<br>Yn dilyn ystyried llythyrau pellach o sylwadau oddi wrth y Rheolwr Iechyd a Thai Sector Preifat.<br>Amrywiad i Amod Rhif. 2 ar ganiatâd cynllunio 18/2005/1068/PF yn cyfyngu'r defnydd o unedau busnes i Ddosbarth Defnydd B1, i ganiatau defnydd Dosbarthiadau B1 a B8 (storio a dosbarthu).<br>**Fferm Speddyd, Llandyrnog, Dinbych**<br>CANIATÁU |

**(ii) CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG YN ERBYN ARGYMHELLION SWYDDOGION**

02/2005/1459/LB

Cadw ffenestri newydd ar siop yn defnyddio bariau gwydr newydd a phaenau lluosog (Cais Adeilad Rhestredig)
**14 Stryd y Ffynnon, Rhuthun**
Penderfynwyd rhoi CANIATÂD adeilad rhestredig am y rheswm bod Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Rhuthun yn nodi amrywiaeth o steiliau ynghanol y dref a bod enghreifftiau eraill o ffenestri siop paenau bach ar gael. Felly, byddai'r cynnig yn gweddu i olwg y stryd ac ni fyddai'n niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr adeilad rhestredig neu'r ardal gadwraeth.
Angen hysbysu CADW o'r penderfyniad i roi caniatâd cyn cyflwyno nodyn yn hysbysu.
Cymerwyd y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad Swyddogion, am y rheswm canlynol:
Ystyrir bod y ffenestri yn briodol ar Adeilad Rhestredig yn yr ardal gan fod enghreifftiau tebyg gerllaw.
(Roedd y Cynghorydd G Kensler am gynnwys nodyn yn datgan ei bod wedi ymatal rhag pleidleisio.)

**(iii) GWRTHOD YN ERBYN ARGYMHELLION SWYDDOGION**

22/2005/1206/PF

Yn dilyn ystyried 2 lythyr pellach o sylwadau oddi wrth: D H Williams, Bryn Defaid, Gellifor, W M Jones & Talog Davies (ar ran D H Williams)
Codi un byngalo *dormer* sengl yn ymgorffori ymestyn mynediad i'r dramwyfa sydd yno eisoes a gwaith tirlunio a draenio cysylltiol.
**Tir ger Old Barn, Gellifor, Rhuthun.**
GWRTHOD am y rheswm canlynol:
1. Byddai mynediad i'r cynnig drwy fynediad cerbydau a rennir ac a fyddai'n pasio'n agos i'r hen sgubor a Bryn Defaid. Golygai hyn y byddai holl gerbydau yn teithio i, ac o'r annedd newydd yn teithio'n agos iawn i anheddau sydd yno eisoes, gan arwain at sŵn ac aflonyddwch er niwed i drigolion preswyl yr annedd hwn. Byddai hyn yn mynd yn groes i faen prawf (iv) Polisi GEN 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.
Cymerwyd y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhellion y Swyddogion, am y rhesymau a roddwyd.

**(iv) GOHIRIWYD AM Y RHESYMAU A RODDWYD**

| | |
|---|---|
| 42/2005/1327/PC | Yn dilyn ystyried adroddiad yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2006 a llythyrau pellach o sylwadau oddi wrth: Cyngor Cymuned Dyserth. Codi adeilad ar gyfer dibenion atodol i ddefnydd y prif annedd (cais ôl-weithredol).<br>**Mount House, Bryniau Dyserth, Rhyl**<br>GOHIRIO i ganiatáu ailymgynghoriad ac asesu'r cynlluniau diwygiedig. |

**(v) TYNNWYD NÔL**

| | |
|---|---|
| 43/2005/1489/PS | Amrywiad i amod rhif 8 o ganiatâd cynllunio cod rhif. 43/2000/0875/PO yn ymwneud â stopio neu gau Cefn Y Gwyrch, i fod angen cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol i drefniadau i rwystro mynediad i gerbydau i ran Cefn Y Gwyrch i'r dwyrain o'r ffordd ystâd newydd a gynigir.<br>**Tir ger Brookdale, Cefn Y Gwyrch, Prestatyn.**<br>TYNNWYD NÔL GAN YR YMGEISYDD.<br>Rhoddwyd caniatâd i'r Arweinydd, Cynghorydd R. Hughes, annerch y pwyllgor a gwnaeth gais am dderbyn datganiad ar fater Cefn y Gwyrch mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol. |

**3. GORCHYMYN CADWRAETH COED 2/2005**

Adroddiad a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus yn manylu ar gyflwyno Gorchymyn Cadwraeth Coeden ar goeden ger ffin 6 Ffordd y Ficerdy, Llangollen.

***PENDERFYNWYD** y dylid cadarnhau TPO 2/2005 heb newid.*

**4. EITEMAU GWYBODAETH**

Adroddiad a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus ar ddrafft ymgynghoriad Nodyn Cyngor Technegol (TAN)(5) Cadwraeth Natur a Chynllunio

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

## 5. RHESTR CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus ei adroddiad ysgrifenedig (dosbarthwyd o flaen llaw) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio y gwnaeth ef benderfyniad arnynt dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1 Ionawr 2006 a 31 Ionawr 2006.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 y prynhawn.